CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD CYNGOR 17 CHWEFROR 2015

Presennol
Ei deilyngdod Y Maer – Cyng W R Owen

Cynghorwyr
B Owen, W T Owen, I C Thomas, H W Roberts, W L Davies, M Thomas
G Thomas, A Hopcyn, E Lovgreen, T Thomas, C Williams, G Thomas

Siaradwr Gwadd : Arolygydd Brian Kearney -Heddlu

Croesawyd gan Y Maer

Cafwyd ychydig o eiriau am hanes ei yrfa hyd yma – sef 19 mlynedd efo Heddlu Gogledd Cymru yn ardal Gwynedd a Môn

Ac wedi cyflawni nifer o wahanol swyddi a bellach wedi dyrchafu i swydd Arolygydd

Roedd yn ymfalchïo yn y ffaith bod perthynas chryf rhwng y Cyngor a'r heddlu a dymuna weld hyn yn parhau.

Gofyn i'r Cynghorwyr adrodd unrhyw "intel" o werth ,a cheisio bod yn wyliadwrus ar ran yr Heddlu er mwyn cydweithio er lles y dref .

Nodwyd llwyddiant ymgyrch Scorpion diweddar

Cafwyd nifer o gwestiynau a nodwyd pa mor bwysig oedd gweld Heddlu ar y stryd

Diolchodd Y Maer iddo am ei amser

1.Ymddiheuriadau
E Hughes, A Bohana, K Williams

2.Cyhoeddiadau'r Maer

Croesawodd Cyng Cemlyn Williams yn nol ac hefyd croesawu Cyng G Thomas

- Gwasanaeth Coffa Holocaust
- Cinio blynyddol Cylch Trefi Caerog
- Ffederasiwn sefydliad Merched Gwynedd
- Cyfarfod gyda'r Arolygydd Brian Kearney

3.Datgan Buddiant Personol

W T Owen – Cynllunio a trwyddedu
I C Thomas – trwyddedu
E Lovgreen – Cynllunio / trwyddedu

4.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Eitem Trwyddedu

5.Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 3 Chwefror 2015
ii. Is Bwyllgor Adloniant 3 Chwefror 2015
iii. Panel Cyllid 10 Chwefror 2015

Penderfynwyd

i. Derbyn fel rhai cywir
ii. Derbyn er gwybodaeth gan eu bod nhw wedi mabwysiadu yn barod
iii. Derbyn fel rhai cywir a derbyn yr argymhellion

6. Ceisiadau Cynllunio a Trwyddedu

I ystyried y Ceisiadau Cynllunio

Penderfynwyd

1. C14/0532/14/LL — Symud i Cyngor 3 Mawrth
Addasu adeilad ar gyfer bwyty a gwesty — pawb i edrych ar y we
(9 ystafell) newidiadau i'r fynedfa, torri
Coed,. tirlunio, mannau parcio, addasu adeilad
I gaffi a chodi unedau gwyliau newydd i
greu cyfanswm o 18 uned wyliau

Plas Brereton ,Ffordd Bangor, Caernarfon

Penderfynwyd parthed Trwyddedu

Hysbysiad o Gais - Deddf Trwyddedu 2013/
Notice of Application - Licensing Act 2013

Trwydded Eiddo/Premises Licence **Cytuno**

19 – 21 Hole in the Wall Street, Caernarfon

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu

8. Dogfen Weithredol y Cyngor

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

9. **Cynhadledd ar y Cyd Unllais/SLCC –** 14 Mai 2015

Penderfynwyd

Enwau i'r clerc

10. E-bost Cwmni Vaughtons

Penderfynwyd

Gofyn iddyn nhw archwilio cadwyn Y Maer ac archebu 6 tarian

11. Unllais

Cyfarfod Cynghorau Mwy

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth gan bod Cyng C Williams yn methu mynd

12. Cyngor Gwynedd

Pâr: Twnnel – Ail Rybudd

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

13. Llythyr Llywodraeth Cymru - Lon Osgoi Bontnewydd

Penderfynwyd

Diolchgar am y wybodaeth a cysylltu a'r adran i sicrhau bod cyhoeddusrwydd da i'r arddangosfa. Hefyd gael cyfarfod o is grŵp y Partneriaeth

14. Unllais Cymru – Dyddiadau Cyrsiau

Penderfynwyd

Enwau i'r clerc

15. Llythyr Aled Roberts Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Pâr: Terfynau cyflymder

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth ac yn edrych ymlaen am y fanylion pellach

16. Llythyr Snowdonia Pumped Hydro

Penderfynwyd

Symud i gyfarfod 3 Mawrth er mwyn astudio'r dogfennau

17. **Cwestiynau**

Oes posib i'r Cyngor cysylltu a CADW i weld beth ydi'r cynlluniau am Cae Gors a Segontium? Oes

Gorffennodd y cyfarfod am 6.45

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....